SWYDD-DDISGRIFIAD

Adran:	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
Teitl y Swydd:	Gweinyddwr Desg Gwasanaeth TGCh
Rhif y Swydd:	NU211
Gradd/Swydd:	Gradd 5
Lleoliad:	Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Yn gyfrifol i'r:	Rheolwr Gwasanaeth TGCh
Yn Gyfrifol am:	Offer TGCh
Gofyniad am fod yn siaradwr Cymraeg:	**D**ymunol

Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swyddddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth.

PRIF BWRPAS Y SWYDD
Darparu swyddogaethau gweinyddol gweithredol y Ddesg Gwasanaeth; bod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer yr Adran TGCh, gan ddarparu gwybodaeth gywir a fydd yn galluogi datrys materion yn brydlon ac ymgymryd â chaffael a gweinyddiaeth gyllidebol i sicrhau bod anfonebau'n cael eu prosesu a'u talu'n brydlon i'r rhai sydd mewn cysylltiad, neu'n rhyngweithio â'r Adran TGCh.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

1. Gweithredu system ddesg wasanaeth gyfrifiadurol, gan sicrhau bod yr holl wybodaeth ofynnol yn cael ei chofnodi mewn modd cywir a manwl, er mwyn cynorthwyo i ddatrys problemau'n brydlon ar gyfer defnyddwyr systemau TGCh Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.
2. Darparu pwynt cyswllt cyntaf rhwng staff y Gwasanaeth Tân ac Achub a chontractwyr allanol fel y bo'n briodol mewn perthynas â chymorth gweithredol y Ddesg Gwasanaeth, gweinyddiaeth, a swyddogaethau caffael.
3. Cynorthwyo i ddatrys problemau'n brydlon ar gyfer defnyddwyr systemau TGCh Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.
4. Cynorthwyo fel rhan o dîm yn y defnydd parhaus o bolisïau, gweithdrefnau, a phrosesau sy'n gyson ag arferion gorau'r diwydiant sy'n gysylltiedig â darparu cymorth gweithredol y Ddesg Gwasanaeth, gweinyddiaeth, a swyddogaethau caffael.

5. Darparu cefnogaeth weinyddol ar gyfer sefydlu cyfrifon defnyddwyr, caniatadau, a chyfrineiriau a sicrhau bod lefelau mynediad gweithredol defnyddwyr ar gael yn ôl yr angen.
6. Sicrhau bod gwybodaeth gywir yn cael ei darparu ar gyfer galwadau cynyddol o Linell 1af i gymorth 2il linell. Cadw cofnodion a dogfennaeth berthnasol a chywir fel y bo'n briodol.
7. Darparu cefnogaeth ac arweiniad rheng flaen lle bo'n briodol ar gyfer swyddogaethau'r Ddesg Gwasanaeth sy'n ymwneud â diffygion a cheisiadau.
8. Cynorthwyo i gynnal a chadw, a chofnodi'n gywir caledwedd a meddalwedd TGCh o fewn Rhestr Asedau'r Ddesg Wasanaeth a hyrwyddo cydymffurfiaeth â thrwyddedau meddalwedd.
9. Darparu dyfynbrisiau cywir, mewnoliadau prosesau, archebion, anfonebau a throsglwyddiadau ar gyfer caffael yr holl bryniannau refeniw a chyfalaf TGCh gan gynnwys mynediad i systemau cyllid cyfrifiadurol o fewn Canllawiau a Fframweithiau'r Sector Cyhoeddus.
10. Darparu cefnogaeth weinyddol i'r Adran TGCh i gynorthwyo i gwrdd ag anghenion y Gwasanaeth.
11. Hyrwyddo defnydd cywir a fersiynau cywir o feddalwedd yn unol â'r Gwyddoniadur Systemau TGCh.
12. Cynorthwyo fel rhan o Dîm i hyrwyddo gwaredu cywir a darparu cofnod cywir o warediadau offer diangen o fewn y Gyfarwyddeb Offer Trydanol ac Electronig Gwastraff a'r Rheoliadau Gwastraff Peryglus.
13. Cynorthwyo fel rhan o dîm i gynnal diogelwch ffisegol a data systemau Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Rhoi gwybod am fynediad anghyfreithlon a hyrwyddo diogelwch digonol ar gyfer gwybodaeth fusnes a phersonol ar gyfer GDPR a deddfwriaeth berthnasol.

Cynorthwyo fel rhan o dîm i hyrwyddo Strategaeth TGCh Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

GOFYNION GWASANAETH SAFONOL

- Mynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl yr angen.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r raddfa a'r swydd.
- Cydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot a gyflwynir o fewn yr adran neu ar draws y Gwasanaeth.
- Gweithredu egwyddorion Polisïau Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a Chynlluniau Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.

Cadw at Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch/Polisïau a Gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol a chymryd gofal rhesymol am eich iechyd a'ch diogelwch eich hun a phobl eraill y gallai eich gweithredoedd/anweithiau effeithio'n andwyol arnynt.

Dyddiad yr adolygwyd y Swydd Ddisgrifiad 13/12/2023.
Awdur: Darren Smith – Rheolwr Gwasanaeth TGCh

GWERTHOEDD SEFYDLIADOL

Wrth berfformio'r rôl uchod, mae'n ofynnol i bob gweithiwr y Gwasanaeth ddilyn a hyrwyddo Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth i fod, ar bob adeg:

- Yn broffesiynol
- Yn ofalgar
- Yn barchus
- Yn ymroddgar
- Yn ddibynadwy
- Yn rymus
- Yn ddisgybledig
- Yn hydwyth

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

Dyddiad yr adolygwyd y Swydd Ddisgrifiad 13/12/2023.
Awdur: Darren Smith – Rheolwr Gwasanaeth TGCh